**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 12 Ionawr 2018 am 10.00am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | P Downing | V M Evans |
| S J Gallagher | P Lloyd | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: H M Morris, C L Philpott ac L G Thomas

---

## 71 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 72 Cofnodion

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.

## 73 Gwahardd y Cyhoedd

## 74 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010- Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - DAC

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais DAC am Dystysgrif Eithrio.

Esboniodd DAC yr amgylchiadau'n ymwneud â'r cais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais DAC am gael ei ryddhau o gludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat, **tan 30 Tachwedd, 2018.**

## 75 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Deddf Cydraddoldeb 2010- Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - MJP

Dywedodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd fod MJP wedi methu dod i'r cyfarfod.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch, yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais cais MJP am Dystysgrif Eithrio.

**Penderfynwyd:**

1. Ystyried y mater yn absenoldeb MJP;
2. **Cymeradwyo** cais MJP i gael ei ryddhau o gludo defnyddwyr cadair olwyn mewn cerbyd hacni a/neu gerbyd hurio preifat **am gyfnod amhendant.**

## 76 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am Roi Trwydded Gyfyngedig i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - AGB

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais AGB am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Esboniodd AGB yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'i gais ac atebodd gwestiynau aelodau.

**Penderfynwyd gwrthod** cais AGB am drwydded yrru cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd aelodau'n fodlon bod AGB yn berson addas a phriodol am y rhesymau canlynol:

1. Methiant AGB i ddatgelu trosedd ar y ffurflen gais i'w hystyried gan yr Awdurdod Trwyddedu fel y cafodd gyfarwyddyd i'w wneud ar y ffurflen gais. Nodwyd nad

oedd y methiant hwn yn ddigwyddiad unigryw am ei fod wedi digwydd mewn cais blaenorol hefyd, ac y tynnwyd sylw AGB at y mater;

2. Roedd AGB yn destun adolygiadau meddygol bob tri mis o hyd ac nid oedd tystiolaeth i gefnogi ei honiadau ei fod wedi gwella; ac
3. Roedd aelodau'n poeni am effaith y feddyginiaeth ar allu AGB i yrru'n ddiogel.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50am

**Cadeirydd**